# Eich Gweithgor Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG) lleol

National Deaf Children's Society CYMRU

## Ymunwch â ni

Rydyn ni'n grŵp o weithwyr proffesiynol a rhieni plant byddar lleol, sydd, ynghyd â phobl ifanc byddar, yn cydweithio i wella gwasanaethau lleol.

## Cymerwch ran

Rydyn ni am gadw barnau plant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd yng nghanol yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rydych chi'n arbenigwr drwy brofiad. Ymunwch â ni a rhannwch eich barnau.

## Pryd a ble?

Rydyn ni'n cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn, fel arfer ar-lein, gan ei wneud yn haws i rieni a gweithwyr proffesiynol i fynychu. Os fyddwn ni'n cyfarfod wyneb yn wyneb, byddwn ni'n sicrhau nad yw'n rhwystro rhieni rhag gallu mynychu.

## Dysgwch fwy

Ymunwch â rhieni eraill mewn gweithdy Rhieni fel Partneriaid ar-lein wedi'i gynnal gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, i ddarganfod mwy am CHSWG a'r cymorth sydd ar gael, neu anfonwch e-bost at **localengagement@ndcs.org.uk** a bydd un o'n tîm yn cysylltu â chi.

## Manylion cyswllt eich CHSWG lleol:

Yn gyffredinol, cynhelir cyfarfodydd CHSWG yn Saesneg. Os hoffech chi gael mynediad at y cyfarfod yn Gymraeg neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL), rhowch wybod i ni. Cysylltwch â ni hefyd os oes gennych chi unrhyw anghenion mynediad eraill ac angen

Cysylltwch â ni os ydych chi am ddysgu mwy.

## Pam mae'n bwysig i deuluoedd plant a phobl ifanc byddar i gymryd rhan?

**Nid yw byddardod yn anabledd dysgu;** gyda'r cymorth cywir nid oes unrhyw reswm pam na all plentyn byddar gyflawni cymaint â phlentyn sy'n clywed.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos **bylchau cyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol yng Nghymru** (Gweler Statscymru.llyw.cymru 2019).

**"Bydd gweithio'n agos gyda rhieni a phobl ifanc yn ogystal ag ar draws mudiadau yn arwain at well gwasanaethau i fabanod newydd-anedig, babanod, plant, pobl ifanc byddar a'u teuluoedd."**
(Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Clyw Plant Fersiwn 2 Pecyn Asesu ac Archwilio, Gorffennaf 2016).

**Mae rhieni yn arbenigwyr drwy brofiad.** Dywedwch wrth eich gwasanaethau lleol am yr hyn sydd angen arnoch chi, i allu gwneud penderfyniadau sydd yn iawn i'ch plentyn/person ifanc chi.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 1016532 ac yn Yr Alban rhif SC040779. C0151